# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 5 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid

### Treth Incwm Leol

**C11 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddisodli'r dreth gyngor a chyflwyno treth incwm leol? (OAQ22797) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Nid oes unrhyw gynlluniau i ddisodli'r dreth gyngor.

*Tynnwyd cwestiynau 12 (OAQ22788), 13 (OAQ22805) a 14 (OAQ22809) yn ôl.*

*Atebwyd cwestiwn 15 (OAQ22793) yn y Cyfarfod Llawn.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Yr Amgylchedd Adeiledig yng Nghanol De Cymru

**C7 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau i helpu i ddiogelu'r amgylchedd adeiledig yng Nghanol De Cymru? (OAQ22825) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Bwriad Llywodraeth y Cynulliad, fel a nodir yn 'Polisi Cynllunio Cymru' (Mawrth 2002), yw diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol drwy Gymru, gan gydnabod ei gyfraniad i egni economaidd a chelfyddyd, balchder cymunedol ac ansawdd bywyd, a'i bwysigrwydd fel adnodd ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diogelu adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol drwy eu cynnwys ar restrau statudol, ac yn sicrhau bod arian ar gael i'r rhai mwyaf arwyddocaol yn bensaernïol ac yn hanesyddol. Yng Nghanol De Cymru, cynigiwyd grantiau o £345,000 ar gyfer gwaith trwsio adeiladau hanesyddol yn 2001-02, a chynigiwyd £782,000 er 1999.

*Atebwyd cwestiynau 8 (OAQ22831) a 10 (OAQ22838) yn y Cyfarfod Llawn.*

*Tynnwyd cwestiwn 9 (OAQ22848) yn ôl.*

### Sŵn ar Draffyrdd

**C11 Brian Gibbons:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i fynd i'r afael â lefelau annerbyniol y sŵn ar draffyrdd yn deillio o ffyrdd a gwblhawyd ar ôl 1988? (OAQ22830)

**Sue Essex:** Yr oedd cylch gwaith yr astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar liniaru sŵn traffig yn gofyn i'r adroddiad ystyried ffyrdd a gwblhawyd cyn Mehefin 1998, pan ddaeth rheoliadau a ddarparai iawndal i drigolion a effeithiwyd gan gynlluniau ffyrdd i rym. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

parhau i fynd i'r afael ag effaith sŵn ar draffyrdd drwy ei rhaglen dreigl o gynnal a chadw, a gwella rheolaidd.

### Asesiadau o Risg Llygredd

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd asesiadau o risg llygredd mewn gweithdrefnau cynllunio? (OAQ22843)

**Sue Essex:** Mae'r deddfwriaeth a'r polisi cynllunio presennol yn gosod fframwaith o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol, sy'n sicrhau bod tir halogedig yn cael ei asesu'n gywir fel rhan o weithdrefnau cynllunio ac, os oes angen, amodau sydd ynghlwm wrth hawl cynllunio i sicrhau adferiad priodol o'r tir. Mae gwaith ar y gweill i archwilio ffyrdd o sicrhau bod goblygiadau iechyd posibl yr holl ddatblygiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn llawn ac yn briodol yn ystod y broses gynllunio. Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddatblygiadau sy'n golygu defnyddio tir halogedig.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ22857) yn ôl.*

### Trafnidiaeth Awyr yng Nghymru

**C14 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn ddiweddar ynghylch trafnidiaeth awyr yng Nghymru? (OAQ22856)

**Sue Essex:** Mae adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, 'Transport in Wales', a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2003, yn cynnwys chwe argymhelliad penodol sy'n ymwneud â'r diwydiant awyrennau yng Nghymru. Tra bo Llywodraeth y DU yn gyfrifol yn y bôn am bolisi meysydd awyr, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn hybu sawl menter, gan gynnwys cysylltiadau awyr o'r De i'r Gogledd, fel a gefnogwyd gan y Pwyllgor Dethol. Yn y pen draw, yr Adran Drafnidiaeth sydd i ymateb i argymhellion y Pwyllgor, mewn ymghynghoriad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Trwyddedau i Gloddio Agregau yn Nyffryn Wysg

**C15 David Davies:** Sawl cais y mae'r Gweinidog wedi'i dderbyn ers dechrau'r flwyddyn am drwyddedau i gloddio agregau yn nyffryn Wysg? (OAQ22858)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw geisiadau cynllunio i gloddio agregau yn nyffryn Wysg ers dechrau'r flwyddyn, ac ni fyddwn yn disgwyl eu derbyn. Byddai ceisiadau o'r fath, fel mater o drefn, yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Fynwy fel yr awdurdod cynllunio lleol. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gais wedi cael ei gyflwyno i'r cyngor sir yn ystod y cyfnod hwn.